**Sul Galwad 2021 2il Mai**

**Galwad i addoli**

Molwch Dduw yn ei addoldy sanctaidd;
molwch ef o dan yr awyr agored;
Molwch Dduw yn ein cartrefi,
Molwch ef yn ein hysgolion ac ar ein strydoedd, ac yn ein gwaith.
Molwch ef am ei weithredoedd nerthol,
molwch ef am ei fawredd godidog;
Molwch gyda sain yr utgorn,
molwch gyda cherddoriaeth trwy ein clustffonau,
Molwch ef gyda synau mawr,
molwch ef mewn sibrydion tawel.
Boed i bob creadur byw sy'n anadlu foli Duw!
Haleliwia!

**Caneuon Ffydd 39** O caned pawb o bedwar ban y byd

**Gweddïau agoriadol** –

*Yn y dechreuad*,
creodd Duw bopeth
a gwelodd *ei fod yn dda.*
Duw pawb,
Deuwn o'th flaen heddiw yn union fel rydyn ni,
Codwn i ti'r llawenydd o fod yn fyw,
Molwn di ein bod yn rhan o dy Gread rhyfeddol.
Planna ynom gariad cynyddol atat ti.
Boed i addoliad a mawl lifo o'n calonnau,
Boed i ffrwythlondeb ein bywydau ddod â gogoniant i ti
**Amen**

**Mawl Mai**
Mae'r greadigaeth yn dy ogoneddu mewn miliwn arlliw o wyrdd,
Mae'r ddraenen wen drom, sy'n plygu dan bwysau ei blodau
Yn tystio i dy gariad hael,
Mae blagur yn bendithio â helaethrwydd ysblennydd,
Mae ffresni'r petrichor yn ysgogi
persawr bywyd newydd
Ac mae gwres trwm yn codi
- yn ein hatgoffa

o'r gwirionedd
bod dy Bresenoldeb yn real ac yn agos.
Mae rhesi o wair yn siglo a moli
Ac yn dangos llif yr awel.
Anadla arnom y Pentecost hwn
Yn nhymor yr Ysbryd Glân.
Cynhesa ein calonnau,
Ysbrydola ni â'th wychder,
Deffra ein hysbryd i ymateb i Ti.
**Amen**

**Gweddi'r Arglwydd**

**Cyflwyniad:**

Yn y darlleniad o'r Beibl byddwn yn ei glywed yn fuan, mae Iesu'n siarad am Winwydden. Mae hwn yn blanhigyn sy'n tyfu grawnwin. Er mwyn i winwydden, neu unrhyw blanhigyn dyfu'n gryf, a thyfu ffrwythau, mae angen iddi gael ei bwydo'n dda. Hefyd, weithiau mae angen i'w changhennau gael eu torri'n fyrrach. Gelwir hyn yn docio neu frigdorri ac mae'n helpu'r gangen newydd sy'n tyfu i gael mwy o ffrwythau.

Dywed Iesu yn y darlleniad ei fod fel Gwinwydden a'n bod ni fel y canghennau. Yn ein Beiblau, y gair a ddefnyddir yw 'aros' yn Iesu; mae hyn yn golygu cael eich cysylltu, neu eich plygio i mewn.

Os ydych chi'n meddwl am ffôn symudol gyda batri isel, mae angen ei blygio i mewn i'w ailwefru. Mae angen i ni fod â chysylltiad da â Iesu os ydym am gael pŵer llawn Duw. Weithiau mae cof ein ffonau yn llawn ac mae'n rhaid i ni ddileu rhai Apiau fel y gall y ffôn weithio o hyd. Os ydych chi erioed wedi gorfod gwneud hyn, mae'n anodd iawn dewis pa Apiau i'w dileu a pha rai yw'r rhai gwirioneddol bwysig i'w cadw. Mae hyn ychydig fel tocio planhigyn. Yn yr un modd, fel disgyblion Iesu, weithiau mae'n rhaid i ni stopio rhai o'r pethau rydyn ni'n eu gwneud, felly gall y pethau gwirioneddol bwysig ddigwydd.

Allwch chi feddwl am bethau rydych chi'n eu gwneud sy'n eich helpu chi i aros yn Iesu? Pa fath o bethau sy'n eich helpu chi i fod yn garedig, ac yn hael ac yn gariadus?

Gwnewch restr efallai neu gwnewch lun o'r pethau sy'n eich helpu chi i fod fel Iesu ac wedi eich plygio i mewn i Iesu. Pa bethau yn yr ysgol neu'r gwaith, gartref ac yn yr eglwys sy'n eich helpu i fod yn gariadus ac yn hael ac yn garedig?

Efallai y bydd meddwl am y pethau hyn yn gwneud ichi deimlo'n ddiolchgar - mae hyn yn dda, dywedwch wrth Iesu amdano, gweddi o ddiolch ydyw.

Allwch chi feddwl am bethau sy'n llenwi'ch bywyd ond sy'n ei gwneud hi'n anodd gwneud y pethau iawn?

Pa bethau yn yr ysgol neu'r gwaith, gartref ac yn yr eglwys sy'n ei gwneud hi'n anodd i chi fod yn gariadus ac yn hael ac yn garedig?

Gwnewch restr efallai, neu gwnewch lun o'r pethau hynny hefyd - fe allai eich gwneud chi'n drist, ond mae hyn yn iawn; gallwch chi siarad â Iesu amdano, gweddi mae'n ddrwg gen i ydyw.

**Ioan 15:1-9**

**Myfyrdod**

Mae'n ddiddorol bod Iesu'n dewis delweddaeth o'r winwydden. Yn yr Hen Destament defnyddir y winwydden weithiau fel symbol o'r Meseia, yn arwydd o obaith, ac weithiau fe'i defnyddir fel trosiad am Israel pan ganfuwyd bod y bobl yn ddiffygiol mewn Duwioldeb; pan fydd angen newid.

Mae'r hyn a ddarllenwn ym mhennod 15 o Efengyl Ioan yn obeithiol ac eto'n eglur bod angen i ni newid.

Mae'n obeithiol oherwydd ein bod yn cael ein hatgoffa ein bod yn gydgysylltiedig ag Ysbryd Duw trwy ein perthynas â Iesu. Y geiriau sy'n dod i fy meddwl yw cariad, ffrwythlondeb, llawenydd, helaethrwydd, cysylltiad ac aros. Pa eiriau sy'n dod i'ch meddwl pan feddyliwch am gael eich cysylltu trwy'r Ysbryd Glân â Iesu?

Beth ydych chi'n meddwl y mae'n ei olygu i aros yn Iesu? Os ydw i'n chwarae gêm cysylltiad geiriau, rydw i'n mynd o aros, i fyw gyda, yna rydw i'n meddwl am gartref, yna gorffwys, yna diogelwch, teulu, ffrindiau a charu. Mae aros yn Iesu yn hynny i gyd a mwy; fe'n gwahoddir i aros yn y cyfan yw Iesu. Os ydym am aros yn cyfan yw Iesu, yna byddwn yn gwbl fyw, rydyn ni'n cael ein maethu gyda'r Ysbryd bywhaol, rydyn ni'n cael ein caru, yn union fel mae Iesu'n cael ei garu gan y Creawdwr.

Beth yn eich barn chi yw ffrwythau niferus y bywyd sy'n cael eu byw fel hyn? Pe byddem yn eu rhestru, gallent fod yn nodweddion megis cariad, llawenydd, heddwch, amynedd, caredigrwydd, haelioni, ffyddlondeb, addfwynder a hunanreolaeth.

Heddiw yw Sul Galwad a chredaf y byddai galwad sy'n cael ei maethu gan Ysbryd bywhaol Duw fod â ffrwyth fel y rhestr hon - gadewch inni eu clywed eto; cariad, llawenydd, heddwch, amynedd, caredigrwydd, haelioni, ffyddlondeb, addfwynder a hunanreolaeth.

Fodd bynnag, gall geiriau fel galwad a galwedigaeth ein dychryn weithiau, felly rwy'n meddwl amdano fel hyn. Prif alwad Cristion yw dilyn Iesu, a'r daith sy'n tarddu o hynny, i bob un ohonom, yw ein galwad unigryw ein hunain. Ydych chi'n gweld eich taith gyda Iesu fel galwad? Neu a ydych chi'n credu mai dim ond ar gyfer Gweinidogion, a nyrsys ac athrawon y mae galwad?

Mae yna stori am fyfyriwr sy'n colli yn ei ystafell, yr oriawr a etifeddodd gan ei daid; ni all ddod o hyd iddo yn unman gan fod yr ystafell yn llanast llwyr. Felly mae'n mynd i ystafell ei gymydog i chwilio amdani yno, gan ei bod yn haws dod o hyd i bethau mewn ystafell daclus. Mae ei athro yn mynd heibio ac yn gofyn iddo 'Pam wyt ti'n chwilio am rywbeth lle nad ydyw?'

Ydyn ni'n edrych weithiau am ymdeimlad o alwad lle nad ydyw? Mae darlleniad y Beibl heddiw yn awgrymu y bydd llawer o ffrwyth yn tyfu ble rydyn ni'n fwyaf cysylltiedig â'r Winwydden. Felly ar Sul Galwad, tybed beth fydd yn digwydd os edrychwn ar ble mae ein bywyd yn dwyn ffrwyth a gofyn, 'a allai hyn fod yn dystiolaeth o fy ngalwad?'

Arhoswch am funud a gofynnwch i chi'ch hunan: Ble mewn bywyd, ar hyn o bryd, mae arwyddion o gariad, llawenydd, heddwch, amynedd, caredigrwydd, haelioni, ffyddlondeb, addfwynder a hunanreolaeth?

Fel y soniwyd yn gynharach, mae'r darlleniad o'r Beibl hefyd yn siarad rhai geiriau anodd am yr angen i ni newid, i gael ein tocio.

Efallai nad yw pethau a oedd unwaith yn dwyn llawer o ffrwyth, a oedd unwaith yn alwad i ni, bellach yn bod.

Sut ydyn ni'n gwybod a yw rhai o'r canghennau sy'n ymwneud â'n galwad yn barod i gael eu tocio?

Oes yna bethau rydych chi'n eu gwneud, o bosib yn enw Duw a'r eglwys, sydd bellach yn faich, yn llethol, yn dod ag ymdeimlad o ddigalondid, ac yn anffodus naill ai ddim yn dwyn unrhyw ffrwyth neu nid yw'r ffrwyth bellach yn niferus a llawn sudd? Os felly, gallai fod yn amser newid, amser i docio'r canghennau hynny.

Nid yw Sul Galwad yn ymwneud â chi a fi fel unigolion yn unig a'n galwad ein hunain; mae hefyd yn ymwneud â galwad yr eglwys.

Ble mae'r ffrwyth niferus ym mywyd eich eglwys? A beth sydd angen ei docio? Wrth i ni ddod allan o'r cyfnod clo, dyma'r amser i ofyn beth yw galwad yr eglwys yn yr amser a'r lle rydym yn ein cael ein hunain? Ai'r un peth ag yr oedd yn 2019? Neu a yw'r hyn a oedd yn ffrwythlon bellach wedi sychu? Efallai bod gennym rai penderfyniadau anodd i'w gwneud fel cymunedau eglwysig.

Mae fy mrawd yng nghyfraith yn byw ar winllan yn Ffrainc, a phan ddaw'r tractorau i docio'r gwinwydd mae'n edrych yn llym, ond mae'n angenrheidiol os yw'r gwinwydd i dyfu ffrwythau newydd a blasus.

Mae ein Duw yn Dduw cariad ac yn Dduw gwahoddiad. Mae Duw yn aros yn amyneddgar yn ein bywydau. Wrth i ni weithio allan ein galwad, yn unigol ac fel cymuned, mae Duw yn aros, ond nid yw Duw yn aros fel y grawnwin a baciwyd dan wactod yn yr archfarchnad, yn aros i ni agor y pecyn a gadael y ffrwythau allan. Mae Duw yn aros ac yn weithredol. Y gwahoddiad yw edrych, a sylwi ble mae Duw ar waith, lle mae tystiolaeth o ffrwyth Ysbryd Duw. Dyna ble rydyn ni'n ymuno.

**Gweddïau o eiriolaeth**
Duw diysgog,
Codwn ein byd i ti
Gan gadw yn ein calonnau y mannau ble
mae bywydau yn cael eu malu gan anghyfiawnder,
eu rhwygo gan wrthdaro,
eu sathru gan drachwant eraill.
Boed i gyfiawnder egino a chyfiawnder aeddfedu
fel y bydd pawb yn profi dy gariad helaeth.
*Tawelwch i offrymu i Dduw ein gweddïau dros y byd...*

Ail-wreiddia ni ynot ti
**fel bo dy Deyrnas yn tyfu trwom ni.**

Duw sy'n meithrin,
Gweddïwn dros ein cymunedau
Gan gadw yn ein calonnau y mannau ble mae
unigedd wedi dinistrio,
amddifadedd wedi sychu,
breuddwydion wedi gwywo.
Llifa o'r newydd trwy'r mannau hyn
fel y bydd pawb yn profi dy addewid o lawnder.
*Tawelwch i offrymu i Dduw ein gweddïau dros ein cymunedau…*

Ail-wreiddia ni ynot ti
**fel bo dy Deyrnas yn tyfu trwom ni.**

Duw sy'n rhoi bywyd,
Gweddïwn dros ein Heglwys.
Ble mae difaterwch yn heintio:
Planna ynom ni anesmwythyd â phopeth sy'n mygu Dy Ysbryd.
Ble mae diffyg gweledigaeth yn peri i dy bobl farw:
Impia ni i mewn i dy gariad diderfyn.
Ble mae blinder yn gwywo:
Adfywia ni â Goleuni Iesu.
*Tawelwch i offrymu i Dduw ein gweddïau dros yr Eglwys…*

Ail-wreiddia ni ynot ti
**fel bo dy Deyrnas yn tyfu trwom ni.**

Gweddïwn drosom ein hunain a phryderon ein calonnau,
Eu codi mewn tawelwch i ti…

Tocia ni i fod yn barod i ymateb i Ti,
Ail-wylltia ni â dy ras sy'n llifo'n barhaus,
Impia ni i Ti, er mwyn inni ddwyn llawer o ffrwyth.
Ail-wreiddia ni ynot ti
**fel bo dy Deyrnas yn tyfu trwom ni.**
**Amen**

**Offrwm**

Duw’r Creawdwr, creaist y planhigion a'r coed, y bobl a'r anifeiliaid. Rydym am ddweud diolch am hynny i gyd a mwy, trwy rannu'r hyn sydd gennym ag eraill. Mae'r arian rydyn ni'n ei roi yn arwydd o'n diolch i ti am bopeth rwyt ti wedi'i wneud a’r cyfan yr wyt ti. Amen.

**Canu Clod 364/Gwefan Gobaith** Rhof fy mywyd ger dy fron

**Bendith**

Boed i bob coeden a welwch yr wythnos hon eich atgoffa o'r cysylltiad sydd gennych â Chreawdwr y goeden honno. Boed i bob darn o ffrwyth byddwch chi'n eu bwyta eich atgoffa o ddaioni Ysbryd Duw yn eich meithrin. Ewch mewn heddwch i ddwyn ffrwyth cariad, llawenydd, heddwch, amynedd, caredigrwydd, haelioni, ffyddlondeb, addfwynder a hunanreolaeth. Amen